LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Ionawr / Chwefror 2026 Cyfrol 97 Rhif 1

## *Blwyddyn Newydd Dda!*

# *2026*

## *Cyfamod Ebeneser*

***Rydym yn cyffesu mai yr Arglwydd yn unig yw ein Duw. Cyfamodwn â'n gilydd i'w addoli a'i wasanaethu mewn ysbryd a gwirionedd. Rydym yn addo helpu ein gilydd mewn cariad i gyd-gerdded yn ôl ei air yng ngholeuni a nerth yr Ysbryd Glân, gan fod yn ffyddlon i Iesu Grist. Yn frodyr a chwiorydd i'n gilydd, gofynnwn am gymorth Duw.***

**Ebeneser - "Hyd yma y cynorthwyodd yr ARGLWYDD ni."**



*Gair gan y Gweinidog*

Blwyddyn newydd dda iawn i bawb ohonoch. Bu 2025 yn flwddyn brysur i eglwys Ebeneser, yn llawn gweithgareddau a thystiolaeth i gariad Duw yn Iesu. Diolch o galon i bawb ohonoch fu'n rhan o drefnu a chynnal y gweithgareddau hynny.

Ond uwchlaw popeth, diolch i Dduw am ein bendithio cymaint. Cynhaliodd a nerthodd ni yn ddyddiol, gan gadarnhau ein ffydd. Mae ei haelioni yn rhyfeddol tuag atom yn ysbrydol ac yn faterol. Rhoddodd dân yn ein calonnau fel eglwys sy'n llosgi'n barhaus ac yn ein hannog i dystio i'r cariad tragwyddol yn Iesu Grist ac i'r iachawdwriaeth.

Nawr, safwn ar gychwyn 2026, gan weddïo am weledigaeth trwy yr Ysbryd Glân i wasanaethu teyrnas Dduw yn effeithiol. Yr unig beth a wyddom mewn gwirionedd wrth edrych tua'r dyfodol yw fod Duw gyda ni. Meddai'r Iesu ar ddiwedd Efengyl Mathew. "Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd amser." (Mat 28:20)

Mae 2026 yn flwyddyn arwyddocaol gan ein bod yn dathlu ein penblwydd, fel eglwys, yn 200 oed. Bydd cyfle inni ddathlu'r garreg filltir hon mewn amrywiol ffyrdd. Mae dau ddigwyddiad eisoes wedi eu trefnu. Bydd **oedfa ddathlu, am 3.00 ar ddydd Sul 1af Mawrth, yng nghapel y Methodistiaid, Yr Eglwys Newydd.**

Yr ail-ddigwyddiad fydd taith gerdded fer hanesyddol ar **y 6ed o Fehefin ,yn cychwyn am 10.30, o Womanby Street draw i Cornerstone, Heol Siarl.** Yna, am 11.30 byddwn yn cael lluniaeth ysgafn yn Cornerstone. Os nad ydych am gerdded gallwch fynd yn syth i Cornerstone.

Mae gweithgareddau eraill hefyd ar y gweill. Dewch i ymuno gyda ni yn y dathlu.

Alun Tudur.

---

"Fi sy'n gwybod beth dw i wedi'i gynllunio ar eich cyfer chi," meddai'r ARGLWYDD. "Dw i'n bwriadu eich bendithio chi, dim gwneud niwed i chi. Dw i am roi dyfodol llawn gobaith i chi."




**Jeremeia 29 beibl.net 11**

**Bardd o fri!**

Cynhaliwyd cystadleuaeth gan Faer Penarth cyn y Nadolig, a'r un ddaeth yn fuddugol oedd Mali Gwyn Ellis, merch i Bethan a Jon Ellis, ac wyres i Gill a Gethin Lewis. Llongyfarchiadau enfawr iddi.

**Amser arbennig o'r Flwyddyn**





Dail yn diflannu,
Anifeiliaid yn cysgu,
Haul yn machlud cyn amser gwely.

Cropian lawr llawr,
Cyn toriad y wawr,
Beth sydd yn aros o dan y goeden fawr?



Clychau yn canu,
Eglwysi yn llenwi,
Oes na le i ni gyd yn y llety?




Digon o chwerthin,
Digon o ddathlu,
Ond ydy o fel hyn I bawb eleni?



Tai distaw,
Hosannau heb ddim,
Boliau llwglyd, bwyd yn brin.

Ynghanol y nos,
Y chwerthin a'r dathlu.
Nid yw'r Nadolig yr un peth i bawb yng Nghymru.



Cofiwch hyn
a byddwch yn garedig,
Helpwch bawb yn ystod y Nadolig.

***Mali Gwyn Ellis***
***2025***

# ADDEWIDION

Pan roeddwn yn yr ysgol gynradd, ym mis Ionawr byddai'r athro yn gofyn i ni fel disgyblion. "Rŵan, beth yw eich addewidion ar gyfer y flwyddyn newydd?" A byddem yn sgwennu addewidion, fel, "rwy'n addo clirio fy llofft yn amlach" neu "rwyf am llnau fy nannedd pob dydd." Ond wrth i mi ddod yn oedolyn fe syrthiodd yr arfer rhwng y cŵn a'r brain. Bellach mae'n arfer anffasiynol iawn ac un o'r rhesymau am hynny yw ein bod yn anobeithiol am gadw addewidion.

Ond yn ystod ein bywydau rydym yn gwneud addewidion. Os cawsom ein bedyddio neu os ydym wedi bedyddio ein plant, os ydym wedi dod yn aelod o fudiadau neu eglwys, neu wedi priodi, rydym wedi gwneud addewidion.

**Gair Duw**

Mae'r Beibl yn llawn o addunedau neu gyfamodau fel eu gelwir. Y cyntaf yw'r un yn Llyfr Genesis lle mae Duw yn dweud hyn,

**15**Byddi di a'r wraig yn elynion. Bydd dy had di a'i had hi bob amser yn elynion. Bydd e'n sathru dy ben di, a byddi di'n taro ei sawdl e."

Hwn yw'r adduned/cyfamod y cyfeirir ato ym mhennill bythgofiadwy Pantycleyn,

*Ffydd, dacw'r fan, a dacw'r pren*
*yr hoeliwyd arno D'wysog nen*
*yn wirion yn fy lle;*
*y ddraig a 'sigwyd gan yr Un,*
*cans clwyfwyd dau, concwerodd un,*
*a Iesu oedd efe.*

Daeth un o had Efa, sef Iesu, ac fe goncrodd deyrnas yr Un drwg trwy ei waith rhyfeddol.

Ac fe geir cyfamod rhwng Duw a'i bobl, yn Genesis 15, sef,

**4**"Dyma'r ymrwymiad dw i'n ei wneud i ti: byddi di'n dad i lawer iawn o
bobloedd gwahanol. **5**A dw i am newid dy enw di o Abram i Abraham, am
fy mod i wedi dy wneud di yn dad llawer o bobloedd gwahanol. **6**Bydd
gen ti filiynau o ddisgynyddion. Bydd cenhedloedd cyfan yn dod ohonot
ti, a bydd rhai o dy ddisgynyddion di yn frenhinoedd. **7**Bydda i'n cadarn-
hau fy ymrwymiad i ti ac i dy ddisgynyddion ar dy ôl di.

Bydd yr ymrwymiad yn para am byth, ar hyd y cenedlaethau. Dw i'n addo bod yn Dduw i ti ac i dy ddisgynyddion di. [8]A dw i'n mynd i roi'r wlad lle rwyt ti'n crwydro, gwlad Canaan, i ti a dy ddisgynyddion am byth. Fi fydd eu Duw nhw."

Dro ar ôl tro mae Duw yn cadarnhau y cyfamod hwn ac yn gwneud rhai eraill am y Meseia, ei ddyfodiad, ei natur, ei farwolaeth a'i atgyfodiad.

**Ystyried o'r Newydd**

Rwy'n credu bod angen inni ail ystyried yr egwyddor o wneud addewid yng nghyd-destun ffydd. Sefydlwyd eglwysi annibynnol trwy gyfamod rhwng yr aelodau cychwynnol. Bu'n arferiad cyffredin i Gristnogion wneud cyfamod personol gyda Duw fel modd i ddangos eu hymrwymiad i Iesu a'u bod o ddifrif gyda'u bywyd ysbrydol. Yng nghofiant Thomas Richards Abergwaun, brawd tad Henry Richards, Tregaron, ceir nifer o gyfamodau dechrau blwyddyn. Y cyfamod enwocaf o bosib yw un Dafydd Cadwaladr, tad y nyrs enwog Betsi Cadwaladr.

Mae cyfamod yn ffordd o roi trefn ar ein bywyd, i osod blaenoriaethau, i gymryd ein ffydd yn Iesu o ddifrif a cheisio datblygu a thyfu yn fwy tebyg iddo Ef. Mae Duw yn gwybod yn fwy na neb ein bod yn methu a chadw ein gair, ond egwyddor fawr yr Efengyl yw bod maddeuant i'w gael trwy inni edifarhau a dibynnu ar rinwedd aberth I esu trosom. Ac o wneud hynny cawn gyfle newydd i godi ar ein traed, ysgwyd y llwch oddi arnom, gan ddilyn Iesu o'r newydd.

Pa addunedau a allawn ni eu gwneud fel pobl Iesu ar ddechrau 2026? Beth am y rhain?

1 Credu a'i ddilyn yn ffyddlon o ddydd i ddydd, gan garu Duw a chyd-ddyn.
2. Darllen y Beibl yn gyson a gweddïo.
3. Bod yn ffyddlon a gweithgar yng ngwaith teyrnas Dduw trwy eglwys leol. Falle ein bod wedi torri cysylltiad ag eglwys. Beth am ail-gydio a rhoi ein doniau a'n adnoddau at waith Iesu Grist.
4. Cyfrannu yn gyson at waith eglwys leol.

**Cyfraniadau i'r Llusern.**

Os oes rhywbeth hoffech chi ei weld yn Y Llusern neu os oes ganddoch chi gyfraniad ar gyfer Y Llusern, e.e. hoff emyn a pham neu hoff adnod a pham, cysylltwch ag un o'r tîm golgyddol, Alun, Petra, Janette neu Tudur.

**Elusen 2025 – 26 Y Samariaid**

Mae’r gweithgor codi arian wedi cyfarfod i drefnu gweithgareddau i godi arian. Cynhaliwyd gweithdy Torchau Nadolig ar ddydd Gwener 5ed Rhagfyr. Codwyd £261 tuag at yr elusen. Diolch i Bethan Hayes a’r criw am drefnu.

Diolch i Bethan Hayes am wneud torchau i addurno’n byrddau dros yr ŵyl.

Diolch i Lis Decaro am wneud Marmalêd Oren blasus.

Diolch i Dai Williams am werthu nionod picl.

**Calendr**

Y mae Calendr Y Dathlu 1826 – 2026 wedi ei argraffu gyda lluniau perthnasol dros y 200 mlynedd ac ar werth am £10.00. Bydd unrhyw elw yn mynd tuag at elusen y Samariaid. I archebu eich copi cysylltwch gydag Alun (aluntudur@btinternet.com).

**Oedfa ddwyieithog**

Ymunodd aelodau Ebeneser â’r Eglwys Fethodistaidd bnawn Sul, 21ain o Ragfyr, i gynnal oedfa ddathlu ddwyieithog gyda darlleniadau, carolau ac eitemau cerddorol. Cafwyd myfyrdod gan weinidog yr Eglwys Fethodistaidd, Evelyn Bahjai. Cyfrannwyd £200 yn y casgliad i’w basio ymlaen i Gymorth Cristnogol.

**Bore Nadolig**

Hyfryd oedd cael cynulleidfa dda fore Nadolig i ddathlu geni’r Gwaredwr, trwy garolau a gair gan Alun. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael dangos un o’u hanrhegion. Cynhaliwyd casgliad a chyfrannwyd £153 tuag at elusen y Samariaid

**Ffrindiau Bach**

Mae Ffrindiau Bach yn grŵp ar gyfer gofalwyr a phlant bach sy wedi bod yn cyfarfod bob wythnos ers dechrau Rhagfyr. Y weledigaeth yw creu cymuned lle mae pobl yn teimlo croeso i dreulio amser gyda’u plant mewn awyrgylch hamddenol, i ddod i adnabod eraill a phrofi cefnogaeth a chyfeillgarwch.

Ers iddo ddechrau, mae’r grŵp wedi tyfu bob wythnos, o saith plentyn yn y sesiwn gyntaf i ddwsin a mwy bellach. Rydym wedi croesawu rhieni, neiniau a theidiau a gofalwyr. Mae’r grŵp yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a dysgwyr, a rhai sydd â diddordeb mewn anfon eu plant i ysgol Gymraeg yn y dyfodol. Gobeithio bydd y grŵp yn parhau i dyfu ac y bydd hefyd yn bont i deuluoedd ymuno â ni yn ein cyfarfodydd Llan Llanast misol yn Ebeneser.

Teimlwch yn rhydd i wahodd unrhyw deuluoedd â phlant bach y gwyddoch amdanynt i ymuno â ni yn neuadd yr Eglwys Fethodistaudd bob dydd Mawrth am 9.30am.

**Llongyfarchiadau**

Croeso i Caleb Tomos Llwyd, anwyd ar 29ain o Ragfyr, yn drydydd mab i Cynan a Rachel a brawd bach i Seth ac Efan. Llongyfarchiadau a phob bendith i'r teulu bach i'r dyfodol.

**Agor y Llyfr**

Os hoffech ymuno gyda chriw Agor y Llyfr Caerdydd, sy'n mynd o amgylch ysgolion i gyflwyno stori o'r Beibl, cysyllltwch gyda Catrin Roberts neu Alun.

**Cleifion**

Rydym yn cofio'n dyner am y rhai sydd wedi derbyn triniaeth neu sydd o dan ofal meddygol.

Cofiwn am ein cyd-aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi neu gartrefi gofal: Delor a Tom Wedlake, Mair Evans, Megan Williams. Cofiwch weddïo drostynt a chodi'r ffôn am sgwrs.

Mae Iwan Morris yn gaeth i'w gartref ac mae hwyliau da arno.

Mae Gwyneth Briwnant-Jones wedi gadael yr ysbyty ac yn aros gyda ffrindiau.

Mae Alun Parry yn ôl gartref o'r ysbyty.

Cafodd Elfed Davies, tad Lis Decaro, godwm a bu yn Ysbyty Mynydd Bychan tan ddydd Gwener, 16eg o Ionawr. Mae adref bellach yn cryfhau.

Mae Mair Evans yn ysbyty Llandochau ar hyn o bryd.

Mae Tudur Jones yn ymgryfhau adref yn dilyn llawdriniaeth fawr yn ddiweddar.

Dymunwn wellhad buan ac adferiad iechyd i bob un sy'n teimlo'n anhwylus. Os gwyddoch am unrhyw un o'n haelodau sy'n sâl neu yn isel eu hysbryd, rhowch wybod i un o'r diaconiaid yn ddiymdroi.

**Cyngor Eglwysi Caerdydd.**

Cynhaliwyd Clonc Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd bore Iau 8fed o Ionawr am 11.00 – 12.00 yng nghaffi John Lewis.

Bu oedfa ddwyieithog yn Eglwys Sant Teilo, ar bnawn Sul 18fed o Ionawr 2026 fel rhan o Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol.Bydd Oedfa Dydd Gwener y Groglith, 3ydd Ebrill yn eglwys Dewi Sant Bydd Oedfa Cymorth Cristnogol 15fed o Fai dan ofal Ebeneser.

**Cyfieithu**

Rydym wedi prynu cyfarpar cyfieithu newydd i'w ddefnyddio yn yr oedfaon. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i gyfieithu ar y pryd. Rhowch eich enwau i Alun.

**Y Cristion a’r Tyst**

Os ydych am dderbyn y Cristion rhowch wybod i Arfon Jones.

Os hoffech archebu copi o’r Tyst, (50c) rhowch wybod i Alison Jones. Mae’r Tyst yn ymddangos yn wythnosol o dan olygyddiaeth ein gweinidog.

**Gair y Dydd**

Mae cylchgrawn Gair y Dydd yn cynnwys myfyrdodau Beiblaidd, byr, dyddiol. Ceir 4 rhifyn y flwyddyn. Mae rhifyn Ionawr-Mawrth ar gael yn awr gyda chyfraniadau gan Cynan Llwyd a Catrin Roberts. £3 y rhifyn neu £10 am flwyddyn (4 rhifyn). Os hoffech brynu copi neu danysgrifio am flwyddyn cysylltwch â Petra.

**Y Gornel Glyd**

Rydym yn chwilio am ragor o wirfoddolwyr i helpu gyda’r gwaith hwn. Os hoffech helpu ar bnawn Mercher neu bnawn Sul cysylltwch gyda John Hayes.

**Gweddi**

Gweddi yw siarad gyda Duw. Gellir gwneud hyn unrhyw bryd ac yn unrhyw le. Dyma rai awgrymiadau gweddi:

- Diolch i Dduw am ei gariad rhyfeddol yn Iesu.
- Diolch i’r Arglwydd am 2025 a chyflwyno 2026.
- Cofio am y gwrthdaro yn Gasa, Cambodia, Swdan ac Wcrain.
- Tros blant a phobl ifanc sy’n cael amser caled ac yn methu ymdopi.
- Cyflwyno y cynllun Ffrindiau Bach, gweddïo y byddwn yn gallu gwasanaethu gofalwyr â’u plant mân.
- Cofio am y Gornel Glyd, y rhai sy’n ymweld, a’r gwirfoddolwyr.
- Cofio am gleifion sy’n dioddef anhwylderau corfforol ac yn derbyn triniaethau.
- Cyflwyno’r rhai sydd yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl.
- Am ddoethineb i arweinyddion gwleidyddol.
- Tros waith a gweithgareddau Ebeneser yn ystod y tymor newydd hwn: Llanllanast ac Agor y Llyfr.
- Tros Gwilym Jeffs a gwaith Angor Grangetwon.

**Blwch Gweddi a WhatsApp Cwrdd Gweddi**

Mae bocs ym mhob oedfa er mwyn i chi nodi unrhyw destun gweddi sydd ar eich meddwl. Os hoffech fod ar grŵp Whatsap gweddi Ebeneser rhowch wybod i Alun.

**Wel, beth am ymuno â CSE?**
(Casglwyr Sbwriel Ebeneser.) Mae CSE yn cwrdd ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis am 10.00. Mae'r codi sbwriel yn para rhyw 45 munud ac yna mae cyfle i gymdeithasu dros baned neu ddisgled mewn caffi cyfagos. Os oes diddordeb 'da chi ymuno â'r tîm a grŵp whatsapp CSE, cysylltwch â John Hayes **john_hayes1@hotmail.com>**. Mae croeso i bawb

**Colled**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Rhian Ruddock, Rhiwbeina, ar ddiwedd 2025. Cydymdeimlwn gyda'r holl deulu, yn enwedig Meinwen, Gwenan, Catrin, Bethan, Carys, a Megan, yn eu colled a'u hiraeth. Gweddïwn y bydd atgyfodiad yr Arglwydd Iesu yn llewyrchu ar eu llwybrau. Bydd crynodeb o'r deyrnged i Rhian yn y rhifyn nesaf o'r Llusen.

Bu farw Beti Wyn Davies ar y 3ydd o Chwefror yn 96 oed. Dymunwn pob cydymdeimlad â Helen a Paul a'r teulu i gyd. Coffa da amdani.

---

## *Un o hoff emynau Arfon Jones*

Caed modd i faddau beiau
a lle i guddio pen
yng nghlwyfau dyfnion Iesu
fu'n gwaedu ar y pren;
anfeidrol oedd ei gariad,
anhraethol oedd ei gur
wrth farw dros bechadur
o dan yr hoelion dur.

Un waith am byth oedd ddigon
i wisgo'r goron ddrain;
un waith am byth oedd ddigon
i ddiodde'r bicell fain;
un aberth mawr yn sylwedd
yr holl gysgodau i gyd;
un Iesu croeshoeliedig
yn feddyg drwy'r holl fyd.

***1 Mary Owen, 1796-1875, 2 Anad. Caneuon Ffydd 507***

Roedd Mary Owen yn emynyddes ac athrawes ysgol. Ganwyd yn Ynys Maerdy, Llansawel, Morgannwg. 'Roedd ei thad yn ddiacon yng Nghapel Maesyrhaf, Castell Nedd. Cyfansoddodd dros 100 o emynau. Perswadiodd W.Williams, (Caledfryn) hi i gyhoeddi ei gwaith ym 1839.

**Cyfraniadau i'r Llusern.**

Os oes rhywbeth hoffech chi ei weld yn Y Llusern neu os oes ganddoch chi gyfraniad ar gyfer Y Llusern, e.e. hoff emyn a pham neu hoff adnod a pham, cysylltwch ag un o'r tîm golgyddol, Alun, Petra, Janette neu Tudur.

# Cyfarfodydd Angor

BAY CHURCH
GRANGETOWN

Roedd tymor y Nadolig yn gyfle hyfryd i ddathlu'r Wyl ac estyn allan i'r gymdeithas gydag ambell ddigwyddiad. Cafwyd Llan Llanast Nadolig gyda gemau, canu, a stori; canu carolau Cymraeg yn nhafarn y Grange; a chyfle i ymgasglu ar gyfer gwasanaeth carolau traddodiadol yn y Bay church. Mewn amser mor dywyll o'r flwyddyn mae hi'n dda dod i glywed am hanes Oleuni'r byd yn ein cyrraedd fel baban.

Dros y flwyddyn nesaf rydan ni'n gobeithio parhau gydag Angor 'Acwstic'; sydd yn gyfarfod mwy anffurfiol gyda darlleniad/astudiaeth feiblaidd fer gydag amser i drafod neu weddïo mewn grwpiau.  Rydym hefyd yn gobeithio bydd Clwb Tots Angor yn parhau i dyfu, gyda rhieni ifanc a gofalwyr yn dod gyda'u babanod i chwarae a chael sgwrs.

Byddwn ni'n dechrau'r flwyddyn gyda chyfres yn edrych trwy lythyr Paul at y Colosiaid: y thema bydd 'Byw gyda Iesu'. Mae'n debyg bod yr Eglwys yng Ngholossae yn poeni nad oedden nhw wedi deall yr Efengyl yn llawn. Roedd rhai o'u cwmpas gydag athroniaethau mwy cynhyrfus; roedd y gymuned ehangach yn cael effaith fawr arnyn nhw hefyd. Oedd yna fwy i glywed am Iesu? Oedd dealltwriaeth cudd bod angen iddyn nhw geisio'i ddarganfod? Oedd angen Iesu + rhywbeth arall?  Ond mae Paul yn dangos yn gwbl glir, cam wrth cam ac yn ddiflewyn ar dafod bod Iesu Grist yn hollol ddigonol i achub. Yng ngoleuni hyn, roedden nhw'n gallu byw bywydau gyda Iesu oedd yn edrych yn wahanol i'r gymdeithas o'u cwmpas a gallu gwneud hyn yn hollol hyderus. Ac mae'r un peth yn wir i ni heddiw!

**Trefniadau Misol Angor:**

- Sul 1af – Angor Acwstig 4yh. Bay Church, Grangetown.  Cwrdd Gweddi ar Zoom 8yh.
- 2ail Sul - Angor 4yp Bay Church, Grangetown.
- 3ydd Sul-  Y Bwrdd 4yp. Bay Church, Grangetown.
- 4ydd Sul-  Angor 4yp. Bay Church, Grangetown.
- Bore Gwener - Clwb Tots Angor 9:45-11. Y Pafiliwn, Gerddi'r Grange.



# Calendr

Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA.

Pob nos Lun am 7.30 y.h. cynhelir y cwrdd gweddi yng Nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

Cynhelir 'Y Cylch' bob yn ail ddydd Mawrth, yng Nghaffi'r Roundabout, Yr Eglwys Newydd, rhwng 10:30yb ac 11:30yb.

Cynhelir Angor bob Sul gyda chyfarfodydd amrywiol yn Bay Church, Corporation Rd, Grangetown am 4:00yp. Gwasanaethau, Angor Acwstig, Cwrdd Gweddi, Grŵp Merched a Chlwb Tots.

## Suliau Chwefror

**1 Chwefror** - 10:00yb yn CEN a Llan Llanast.
3:00yp yn EF - Alun Tudur
**8 Chwefror** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**15 Chwefror** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**22 Chwefror** - 10:00yb yn CEN - Parch Rhys Locke
3:00yp yn EF - i'w gadarnhau.

## Suliau Mawrth

**1 Mawrth** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**8 Mawrth** - 10:00yb yn CEN - Sian Rees
3:00yp yn EF - Sian Meinir.
Cyfarfodydd Hanner Blynyddol.
**15 Mawrth** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**22 Mawrth** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**29 Mawrth** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur

Llan Llanast *Nesaf*

**10:00yb**
**15 Mawrth, 19 Ebrill**
**Canolfan yr Eglwys Newydd**

Ystafell
'Ffrindiau Bach'
cyn i'r plant
g\yrraedd.









